# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi*
# *Harbour Consultative Committee*

## *20 Hydref - October 2009*

***Adroddiad yr Uned Forwrol***

***1 - <u>Morwriaeth</u>***

***1.1*** Ar yr 11eg Awst 2009, fe archwiliwyd holl gymhorthion mordwyo harbwr Aberdyfi gan swyddog o Dŷ'r Drindod. Mae yn bleser adrodd bod yr archwiliwr o'r farn bod yr holl gymhorthion mewn cyflwr derbyniol ac mae hyn yn welliant sylweddol mewn cymhariaeth a'r adroddiad negyddol a dderbyniwyd yn 2008.

***1.2*** Cyn bod yr archwilydd wedi cynnal ei archwiliad, fe ddaethpwyd i sylw na fod llusern cymhorthydd y 'Tafod' (Spit) wedi bod yn weithredol ers rhai misoedd yn gynharach, ac fe roedd rhaid ymateb ar frys er sicrhau bod y llusern yn cael ei bwrcasu, a'i ail leoli ar y cymhorthydd heb oedi. Pwysleisir na ddylai sefyllfa debyg ddigwydd yn y dyfodol, ac mae yn anorfod bod Rhybudd i Forwyr priodol yn cael ei ddiweddaru pob pythefnos, a bod unrhyw lusern a fu wedi diffodd yn cael ei atgyweirio mor fuan ag sydd yn ymarferol bosibl. Roedd cost y llusern newydd yn £200.10.

***1.3*** Fe fydd bwi rhif 2 - Fl.R.5s. Lleoliad 52°32.06'Gog - 004°04.81'Gor, yn cael ei ddychwelyd i'r lan yn ar gyfer ei gynnal a chadw gan mae bwi tymhorol yw'r cymhorthydd mordwyo. Fe fydd angen paratoi a chychwyn rhaglen waith cynnal a chadw ar gyfer yr holl gymhorthion mordwyo yn ystod yr wythnosau nesaf. Fe fydd angen sicrhau bod yr Harbwr Feistr wedi cwblhau holl waith cynnal a chadw angenrheidiol ymhell cyn cychwyn y tymor nesaf, a bod yr holl gymhorthion wedi eu archwilio ac yn cydymffurfio a gofynion Tŷ'r Drindod.

***1.4*** Yn ystod y gwanwyn, roedd angen cymorth contractwr cymwys er lleoli cymhorthion mordwyo ar eu salfe priodol. Roedd cost y gwaith fel a ganlyn:-

- Ail leoli Cymhorthydd y Traethell - £350.00
- Codi ac Ail leoli Cymhorthydd 'starbwd' – £300.00
- Codi ac Ail leoli Cymhorthydd 'Tafod' - £300.00
- Archwilio pedwar angorfa cychod - £429.00
- Ail leoli Angorion - £220.00

Cyfanswm cost y gwaith contractwr = £1,599.00

***2 – <u>Materion cyffredinol yr Harbwr</u>***

***2.1*** Yn ystod yr wythnosau nesaf, fe fydd yna estyniad i'r raciau storio cychod gweini yn cael ei osod ger y llithrfa. Mae'r raciau presenol a bwrcaswyd yn 2007 wedi bod yn llwyddiannus ac mae hyn wedi rhyddhau arwyneb tir ar gyfer storio cychod hwylio dingi a chychod y Clwb Rhwyfo.

2.2 Mae goleuadau wedi eu lleoli ar yr ochr orllewinol o'r gysgodfan. Mae hyn wedi lleihau trafferthion a fu yn digwydd ar y salfe yn rheolaidd cyn bod yna oleuadau ar y safle.

***3 – Digwyddiadau / Events***

***3.1*** Gan na fod ansawdd Dŵr Ymdrochi wedi cyrraedd y gofynion angenrheidiol yn ystod 2008, ni chaniatawyd i'r Uned Forwrol gyflwyno cais am y Faner Las Rhyngwladol ar gyfer Traeth Aberdyfi yn 2009.

Mae yn debyg na fydd ansawdd y dŵr ymdrochi wedi cyrraedd y gofynion unwaith eto yn 2009, ac mae'n bur debyg na fydd traeth Aberdyfi yn cael ei adnabod fel traeth Baner Las yn 2010. Mae holl ganlyniadau dŵr ymdrochi yn cael eu hasesu gan yr awdurdodau perthnasol ac fe ddisgwylir cadarnhad o'r canlyniadau gan yr awdurdod perthnasol cyn y Nadolig.

Er efallai na efallai bydd y traeth yn cael ei adnabod fel traeth Baner Las Rhyngwladol yn **2010**, mae'n hollol bwysig pwysleisio bod ansawdd cyfleusterau'r traeth, a hefyd y gwasanaethau eraill sydd yn gysylltiedig â thraeth Aberdyfi i'r safon uchaf, ac ni ddylai ansawdd dwr ymdrochi gael unrhyw effaith ar safon y traeth yn gyffredinol.

Pwysleisir na fod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cadarnhau'r canlyniad ansawdd Dwr Ymdrochi 2009 hyd yma.

***4 – Ystadegau Harbwr / Harbour Statistics***

4.1 Nodi'r o'r tabl yn yr atodiad, y bod yna ***892*** o Fadau Dŵr Personol wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd yn ystod 2009. Mae hyn ychydig uwch mewn cymhariaeth â'r niferoedd a fu wedi cofrestru yn 2008. Nodi'r bod canran fwyaf o Fadau Dŵr Personol wedi cofrestru drwy'r swyddfa Forwrol ym Mhwllheli – 374 (***403 yn 2008***) gyda ***28*** o Fadau Dŵr Personol yn unig yn cofrestru drwy'r swyddfa harbwr (***52 yn 2008.)***

4.1 Hefyd fel a nodi'r yn y tabl amgaeedig, cofrestrwyd 47 o gychod pŵer yn harbwr Aberdyfi , ac fe gofrestrwyd ***81*** o gychod pŵer yn harbwr Abermaw eleni.

4.2 Nodi'r o'r tabl yn yr atodiad, y bod yna 97 llestr ar angorfa yn yr harbwr eleni ac mae hyn mewn cymhariaeth a ***102*** a fu wedi angori yn yr harbwr yn ***2008.*** Mae cael cyn lleied o gychod wedi angori yn yr harbwr yn siom fawr ac fe fydd angen edrych i'r posibiliadau o geisio denu cwsmeriaid newydd i'r harbwr yn 2010. O'r wybodaeth a fu wedi ei gyflwyno gan berchenogion, mae yn ymddangos bod ***38%*** o berchenogion y cychod yn breswyl yng Ngwynedd a tra bod ***62%*** yn breswyl tu allan i'r sir.

***5 Cyllidebau / Budgets***

5.1 Atodir er gwybodaeth yr Aelodau, adroddiad cyllideb derfynol harbwr Aberdyfi ac Abermaw am y flwyddyn ariannol ***2008/09***. Atodir hefyd cyllid gwariant, a thargedau incwm yr holl harbyrau am y flwyddyn ***2009/10***.

5.2 Fe nodi'r bod yna incwm sylweddol, sef ***£28,599***, yn ymddangos yn y gyllideb derfynol dan y pennawd 'Grantiau Gohiriedig', ac mae incwm ***£2,870*** yn ymddangos dan y pennawd 'Credid Pensiynau'. Mae yn anorfod pwysleisio na fod yr incwm yn gysylltiedig â gwir incwm yr harbwr, ac fe ddylai cyfanswm incwm fod ***£31,469*** yn llai na'r hyn sydd yn ymddangos.

5.3 Mae targed incwm harbwr Aberdyfi am y flwyddyn ariannol gyfredol yn ***£41,630.*** Hyd at ddiwedd Awst, mae cyfanswm incwm harbwr Aberdyfi wedi cyrraedd £28,131 (***£27,848 ar yr un amser llynedd)*** sef £13,499 yn fyr o'r targed (***£12,692 yn fyr yn yr un cyfnod yn 2008.)*** Oni bai am incwm Gaeafu cychod ar y cei dros fisoedd y gaeaf, mae yn annhebygol bydd yna incwm sylweddol yn cael ei ychwanegu i'r targed cyn diwedd Mawrth 2010

5.4 Fe fydd angen bod yn wyliadwrus iawn er sicrhau na fod yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn ymrwymo arian tu hwnt i'r gyllideb yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Fe fydd gofyn bod yr Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol Harbyrau yn paratoi rhaglen waith manwl ar gyfer dymor yr hydref a gaeaf er mwyn adnabod blaenoriaethau gwariant a blaenoriaethau adnoddau staff gan adrodd ar ganlyniad y gwaith mewn cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol. Fe fydd y rhaglen waith cyfredol yn cael ei chylchredeg gan yr Harbwr Feistr yn y cyfarfod.

## *6 <u>Strwythur Staffio Morwrol / Maritime Staffing Structure</u>*

6.1 Ar y 1af Fai 2007, fe roedd yna newidiadau staff dros dro yn Harbwr Porthmadog, Pwllheli ac Aberdyfi. Yn ystod yr ail drefnu (dros dro) fe secondiwyd Harbwr Feistr Porthmadog i swydd Harbwr Feistr ym Mhwllheli; fe secondiwyd Swyddog Traethau Pwllheli i swydd Harbwr Feistr Porthmadog, ac fe secondiwyd Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi i swydd Cymhorthydd Traeth Pwllheli.

6.2 Fe fydd cyfnod swydd Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi dros dro yn dod i ben ar y 30 Hydref 2009 ac mae deilydd parhaol y swydd yn parhau ar secondiad yn ardal Dwyfor a rhagwelir bydd yn parhau ar gyfenod secondiad hyd at y 31ain Fawrth 2010. Bydd yr Uned Forwrol yn adolygu sefyllfa gofynion staff tymhorol yn fanwl dros fisoedd y gaeaf. Er sicrhau cymorth digonol yn yr harbwr dros fisoedd y gaeaf, fe fydd staff Harbwr Feistr Abermaw yn cynorthwyo Harbwr Feistr Aberdyfi yn ystod y cyfnod 1af Tachwedd hyd at ddiwedd Mawrth 2010, ac oherwydd di swyddiad yn Abermaw, fe fydd gofyn bod staff Porthmadog yn cynorthwyo Harbwr Feistr Abermaw gyda dyletswyddau trwm.

6.3 Yn ystod 2009, fe benodwyd tri aelod staff tymhorol er sicrhau rheolaeth a goruchwyliaeth ar ddŵr yr harbwr, ar draeth Aberdyfi a thraeth Tywyn. Yn sgil y gwaith peirianyddol sylweddol sydd ar fin cychwyn yn Nhywyn, fe fydd angen i'r Uned Forwrol adolygu'r sefyllfa ar gyfer goruchwylio traeth Tywyn yn2010. Ni ragwelir bydd yn addas cyflwyno cais am wobr traeth tra bydd y gwaith peirianyddol ymlaen ac mae yn debygol mae un aelod staff tymhorol bydd yn cael ei benodi ar gyfer goruchwylio'r traeth.

## *7 – <u>Gwasanaeth Ysgraff</u>*

7.1 Yn ystod 2009, fe fu i'r Uned Forwrol rhyddhau un 'Trwydded Perchennog', ac un 'Trwydded Cychwyr' ar gyfer gwasanaeth ysgraff rhwng Abermaw a Phwynt Penrhyn. Rhyddhawyd tri 'Trwydded Perchennog' ac wyth 'trwydded Cychwyr' ar gyfer ysgraff harbwr Abermaw. Er na fod ond un cwch yn gweithredu yn Aberdyfi, mae yn anorfod ein bod yn cysoni gofynion y drwydded drwy'r sir.

7.2 Mae angen sicrhau bod sail rhyddhau 'Trwydded Perchennog' yn glir, ac na fod yna unrhyw amheuaeth o'r nifer a ganiateir gan y syrfëwr i deithio ar fwrdd y cwch. Mae angen hefyd sicrhau bod yna gysondeb yn yr offer diogelwch sydd ei angen ar fwrdd yr ysgraff, a bod yr offer diogelwch wedi cael ei archwilio gan y syrfëwr morol ac ar gael ar fwrdd yr ysgraff ar unrhyw adeg.

7.3 Mae angen bod yn hollol glir ar ddiffiniad ‘Tywydd Ffafriol’ ac fe fydd unrhyw drwydded a fydd yn cael ei ryddhau yn seiliedig ar y paragraff canlynol sydd wedi ei gynnwys oddi fewn Cod Ymarfer yr MCA ar gyfer cychod masnachol:-

***‘Favourable Weather’ means wind, sea and visibility conditions which are deemed by the skipper to be safe for a small vessel to operate within the limits applied to it; or, in any other case means conditions throughout a voyage or excursion in which the effects either individually or in combination of swell, height of waves, strength of wind and visibility cause no hasard to the safety of the vessel, including handling ability.***

***In making a judgement on favourable weather, the skipper should have due regard to official weather forecasts for the service area of the vessel or to weather information for the area which may be available from the MCA or other coastal safety organisations or Harbour Authority.***

7.4 Mae’r amser ble gellir cynnal gwasanaeth ysgraff wedi ei gyfyngu at oriau golau dydd yn unig. Hynny yw, un awr cyn codiad haul hyd at un awr ar ôl machlud haul. Ni chaniateir rhedeg ysgraff tu allan i’r oriau hyn.

7.5 Mae copi o’r ‘Drwydded Perchennog’ a rhestr ‘Offer Diogelwch’ cyfredol wedi ei gynnwys yn yr atodiad a gofynnir barn yr Aelodau ar geiriad y drwydded ac offer sydd angen ei gludo ar fwrdd yr ysgraff.